Trosolwg

Mae'r safon hon yn cwmpasu'r cymhwysedd sydd ei angen i weithredu gweithdrefnau penodedig ar gyfer cynnal a chadw peiriannau ac offer peirianyddol yn unol â'r amserlenni cynnal a chadw perthnasol, yn y dilyniant penodedig ac ar amserlen y cytunwyd arni.

Mae’r Safon hon yn rhoi sylw i’r canlynol:

1. Cynnal gweithdrefnau cynnal a chadw ataliol wedi'u cynllunio ar offer a ddefnyddir mewn prosesau datgomisiynu niwclear

Yn ystod y gwaith hwn, rhaid i chi ystyried arferion gweithio diogel, gweithdrefnau a gofynion gweithredol perthnasol y man gwaith FEL Y MAEN NHW’N BERTHNASOL I CHI.

Mae'r gweithgaredd yn debygol o gael ei wneud gan rywun sy'n gweithio mewn amgylchedd Datgomisiynu Niwclear.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 gweithio'n ddiogel bob amser, gan gydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch a rheoliadau a chanllawiau perthnasol eraill
P2 dilyn y rhestrau cynnal a chadw perthnasol i gyflawni'r gwaith gofynnol
P3 cyflawni'r gweithgareddau cynnal a chadw arfaethedig o fewn terfynau eich awdurdod personol
P4 cyflawni'r gweithgareddau cynnal a chadw arfaethedig yn y dilyniant penodedig ac yn unol ag amserlen y cytunwyd arni
P5 rhoi gwybod am unrhyw achosion ble nad oes modd cwblhau'r gweithgareddau cynnal a chadw sydd wedi'u cynllunio neu os bydd diffygion sydd y tu hwnt i'r amserlen oedd wedi'i chynllunio
P6 cwblhau cofnodion cynnal a chadw perthnasol wedi'u cynllunio'n gywir a'u trosglwyddo i'r unigolyn priodol
P7 cael gwared ar ddeunyddiau gwastraff yn unol ag arferion gwaith diogel a gweithdrefnau cymeradwy

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 deddfwriaeth, rheoliadau ac arferion a gweithdrefnau iechyd a diogelwch
K2 yr amserlenni cynnal a chadw a’r manylebau cysylltiedig
K3 y dulliau a'r gweithdrefnau cynnal a chadw
K4 sut i gael gafael a defnyddio'r cofnodion cynnal a chadw a'r gweithdrefnau dogfennaeth
K5 offer gweithredu a gweithdrefnau gofal a rheoli
K6 terfynau awdurdodi a gallu
K7 llinellau a gweithdrefnau adrodd

Geirfa

Mae ystyr penodol i'r termau canlynol yn y safon hon:

Cofnodion
- Dogfennol
- Seiliedig ar gyfrifiadur

COGN413

Cynnal gweithdrefnau cynnal a chadw ataliol wedi'u cynllunio ar offer a ddefnyddir mewn prosesau datgomisiynu niwclear

Datblygwyd gan	Cogent
Dyddiad cymeradwyo	30 Maw 2021
Dyddiad Adolygu Dangosol	30 Maw 2026
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Cogent
RCU gwreiddiol	N413
Galwedigaethau perthnasol	Galwedigaethau Proffesiynol, Peiranneg, Gweithwyr Proffesiynol ym maes Peirianneg, Technolegau gweithgynhyrchu a pheirianneg
Cyfres/Set	Datgomisiynu Niwclear
Geiriau Allweddol	ataliol, offer, cofnodion